**Jane Hutt AC/AM**
**Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb**
**Minister for Business and Budget**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Yr Arglwydd Dafydd Elis-
Thomas AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol
Cymru

15 Chwefror 2010

Anneyl Dafydd

**RHEOLIADAU AWDURDODAU LLEOL (ADDASU CYFRIFIADAU GOFYNNOL) (CYMRU) 2010**

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi y bydd yn rhaid torri'r rheol 21 diwrnod, hynny er mwyn dod â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Gofynnol) (Cymru) 2010 i rym yng Nghymru. Gwnaed y Rheoliadau hyn ar 15 Chwefror 2010, fe'u gosodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Chwefror 2010 a byddant yn dod i rym ar 28 Chwefror 2010.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio cydrannau'r cyfrifiadau a nodir yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 sy'n darparu sut y bydd awdurdodau lleol a phrif awdurdodau praeseptio'n cyfrifo'u gofynion cyllideb a threth gyngor.

Mae Adrannau 32 a 43 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn nodi sut y bydd awdurdod bilio (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) a phrif awdurdod praeseptio (awdurdod yr heddlu) yn cyfrifo eu gofynion cyllideb am y flwyddyn ariannol. Mae Adrannau 33 a 44 Deddf 1992 yn nodi sut y bydd awdurdod bilio (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) a phrif awdurdod praeseptio (awdurdod yr heddlu) yn cyfrifo swm sylfaenol eu treth gyngor.

Caiff Rheoliadau tebyg eu gwneud bob blwyddyn yn dilyn cymeradwyaeth Tŷ'r Cyffredin o Adroddiad Grant blynyddol yr Heddlu a chymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru o Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) (Setliad Terfynol - Awdurdodau'r Heddlu).

Mewn perthynas â Chymru, diffinnir 'grant yr heddlu' yn adran 43 Deddf 1992 drwy gyfeirio at y swm sy'n daladwy yn unol ag Adroddiad Grant yr Heddlu, ac mae'r diffiniad o 'ariannu gwaelodol' wedi'i addasu yn y Rheoliadau hyn at ddibenion yr awdurdodau lleol yn cyfrifo eu gofynion cyllideb a symiau sylfaenol eu treth gyngor ar gyfer 2010-2011. Mae symiau'r grant sy'n daladwy o dan Adroddiad Grant yr Heddlu a'r 'ariannu gwaelodol' yn effeithio ar y cyfrifiadau hyn. Mae'r diffiniad o'r symiau sy'n

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8475
Correspondence.Jane.Hutt@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

daladwy mewn grant cynnal refeniw ac ardrethi annomestig sydd wedi'u hailddosbarthu wedi'i addasu yn y Rheoliadau hyn drwy gyfeirio at y symiau sy'n daladwy o dan Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2010-2011 (Setliad Terfynol - Awdurdodau'r Heddlu) at ddibenion yr awdurdodau lleol yn cyfrifo eu gofynion cyllideb a symiau sylfaenol eu treth gyngor.

Gall Awdurdodau Lleol gyfrifo eu gofynion cyllideb a phennu eu trethi cyngor (o dan Benodau III ac IV Rhan 1 Deddf 1992) cyn gynted ag y bydd Adroddiad Grant yr Heddlu ac Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2010-2011 (Setliad Terfynol - Awdurdodau'r Heddlu), wedi'u cymeradwyo ac unrhyw ardollau wedi'u cyflwyno iddynt. Gellir cyflwyno tollau o dan adran 74 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (c.41) ar unrhyw adeg cyn 15 Chwefror, fel y bydd awdurdodau'n barod i ddechrau cyfrifo eu gofynion cyllideb a threthi cyngor cyn gynted ag y bydd Adroddiad Grant yr Heddlu ac Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol wedi'u cymeradwyo.

Ni ellid gwneud y Rheoliadau hyn tan y byddai Adroddiad Grant yr Heddlu (Cymru a Lloegr) 2010/11, y cyfeirir ato yn y Rheoliadau, wedi'i gymeradwyo gan Dŷ'r Cyffredin ac Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2010-2011 (Setliad Terfynol - Awdurdodau'r Heddlu), y cyfeirir hefyd ato yn y Rheoliadau hyn, wedi'i gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Oherwydd natur cyllido'r heddlu yng Nghymru a Lloegr) lle mae'r setliad ar gyfer awdurdodau'r heddlu yng Nghymru'n cynnwys tair elfen, Grant Cynnal Refeniw a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Grant yr Heddlu ac Ariannu Gwaelodol a ddarperir gan y Swyddfa Gartref) mae'n rhaid cymeradwyo Adroddiad Grant yr Heddlu cyn y gellir gosod yr Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cymeradwywyd Adroddiad Grant yr Heddlu gan Dŷ'r Cyffredin ar 3 Chwefror 2010 ac Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2010-2011 (Setliad Terfynol - Awdurdodau'r Heddlu) gan y Cynulliad ar 9 Chwefror 2010.

Cyn gynted ag y bydd Adroddiad Grant yr Heddlu ac Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2010-2011 (Setliad Terfynol - Awdurdodau'r Heddlu) wedi'u cymeradwyo ac unrhyw ardollau wedi'u cyflwyno, gall awdurdodau lleol gyfrifo eu gofynion cyllideb a phennu eu trethi cyngor. Rhaid i awdurdodau bilio gyfrifo eu gofynion cyllideb a phennu eu trethi cyngor cyn 11 Mawrth a rhaid i brif awdurdodau praeseptio gyflwyno eu praeseptiau i awdurdodau bilio erbyn 1 Mawrth. Felly mae angen i'r Offeryn dorri'r rheol 21 diwrnod i ganiatáu amser i'r awdurdodau wneud y cyfrifiadau angenrheidiol o fewn y cyfyngiadau statudol hyn.

Gwnaed Rheoliadau tebyg, sef Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Lloegr) 2010, yn Lloegr ar 4 Chwefror, a daethant i rym, gan dorri'r rheol 21 diwrnod, ar 9 Chwefror.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi bod yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Paratowyd Memorandwm Esboniadol hefyd, sy'n cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Gosodwyd hwn, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn yn mynd at Janet Ryder, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ac at Stephen George, Clerc y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol.

Jane Hutt

**Jane Hutt AM**
Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Minister for Business and Budget